**EITEM AGENDA: 10**

## GWASANAETH TÂN & ACHUB GOGLEDD CYMRU

## ADRODDIAD AR GYFER PANEL GWEITHREDOL YR AWDURDOD TÂN

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 22 Ebrill 2004 |
| ADRODDIAD GAN: | **Y PRIF SWYDDOG TÂN** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | I roi gwybod i'r Aelodau am y penderfyniadau a wnaed gan y Prif Swyddog Tân, ac a gadarnhawyd gan y Cadeirydd, mewn perthynas â chaniatáu estyniad o dâl salwch.<br><br>I roi gwybod i'r Aelodau am lefelau absenoldeb oherwydd salwch yr Awdurdod yn ystod y chwarter diwethaf. |

1. **<u>ESTYNIAD I DÂL SALWCH</u>**

1.1 Ers cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 14 Ionawr 2004, cafodd pedwar estyniad i dâl salwch eu caniatáu.

1.2 Mewn un achos roedd yr hawliant i chwe mis o dâl llawn wedi dirwyn i ben a chaniatawyd estyniad o dâl llawn am ddeunaw mis ychwanegol nes bydd y person dan sylw yn ymddeol ar sail tor-iechyd ar 3 Gorffennaf 2004.

Mewn un achos roedd yr hawliant i chwe mis o dâl llawn wedi dirwyn i ben a chaniatawyd estyniad o dâl llawn hyd nes bydd y person dan sylw yn ymddeol ar sail tor-iechyd.

Yn y ddau achos, caniatawyd estyniad o dâl salwch hyd nes roedd gwybodaeth yn cael ei derbyn oddi wrth Iechyd Galwedigaethol am sefyllfa iechyd tymor hir yr unigolion dan sylw. Unwaith y derbyniwyd cadarnhad gan Iechyd Galwedigaethol bod ymddeol ar sail tor-iechyd yn briodol, gweithredwyd i wireddu hynny. Mae'r dyddiadau ar gyfer ymddeol ar sail tor-iechyd wedi'u cadarnhau ar gyfer y ddau unigolyn.

Mewn un achos roedd yr hawliant i chwe mis o dâl llawn wedi dirwyn i ben a chaniatawyd estyniad o dâl o 50% o gyflog llawn am gyfnod o chwe mis, neu ddychwelyd i'r gwaith, pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf.

Mewn un achos roedd yr hawliant i ddeuddeng mis o dâl llawn wedi dirwyn i ben a chaniatawyd estyniad o 50% o gyflog llawn am gyfnod o ddeuddeng mis, neu ddychwelyd i'r gwaith, pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf.

1.3 Yn ystod y cyfnod dan sylw, roedd dau yn staff lifrai rhan amser a dau yn weithwyr lifrai llawn amser gyda'r Gwasanaeth.

## 2. **Y LEFELAU ABSENOLDEB SALWCH**

2.1 Ceir gwybodaeth ynghlwm yn cymharu cyfraddau absenoldebau salwch ar gyfer y cyfnod Ebrill 2003 – Chwefror 2004 gyda'r un cyfnod y llynedd.

2.2 Absenoldeb salwch tymor hir sydd i'w gyfrif am y rhan fwyaf o'r absenoldebau salwch yn y Gwasanaeth.

## 3. **ARGYMHELLIAD**

3.1 I nodi'r adroddiad.


## CYMHARIAETH O'R CYFRADDAU SALWCH


Union nifer y shifftiau/dyddiau a gollwyd rhwng Ebrill 2002 a Chwefror 2003 (ac eithrio cyfnodau gwyliau) yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
**( 11 mis)**

| Categori Staff | Nifer y staff ar gyfartaledd | Nifer o shifftiau/ dyddiau a gollwyd i salwch **byr dymor** | Y nifer ar gyfartaledd o shifftiau/ dyddiau a gollwyd fesul unigolyn i salwch **byr dymor** | Nifer o shifftiau/ dyddiau a gollwyd i salwch **hir dymor** | Y nifer ar gyfartaledd o shifftiau/ dyddiau a gollwyd fesul unigolyn i salwch **hir dymor** |
|---|---|---|---|---|---|
| Staff Shifftiau Llawn Amser | 130 | 349 | 2.68 | 882 | 6.78 |
| Staff Criw Dydd | 80 | 352 | 4.40 | 865 | 10.81 |
| Staff Dyletswydd Dydd/Hyblyg | 66 | 166 | 2.52 | 228 | 3.45 |
| Staff yr Ystafell Reoli | 29 | 106 | 3.66 | 188 | 6.48 |
| Staff Di-lifrai | 91 | 348.5 | 3.83 | 583 | 6.41 |
| Staff Lifrai Llawn Amser | 305 | 973 | 3.19 | 2163 | 7.09 |
| **Holl Staff** | **396** | **1321.5** | **3.34** | **2746** | **6.93** |

Union nifer y shifftiau/dyddiau a gollwyd rhwng Ebrill 2003 a Chwefror 2004 (ac eithrio cyfnodau gwyliau) yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
**( 11 mis)**

| Categori Staff | Nifer y staff ar gyfartaledd | Nifer o shifftiau/ dyddiau a gollwyd i salwch **byr dymor** | Y nifer ar gyfartaledd o shifftiau/ dyddiau a gollwyd fesul unigolyn i salwch **byr dymor** | Nifer o shifftiau/ dyddiau a gollwyd i salwch **hir dymor** | Y nifer ar gyfartaledd o shifftiau/ dyddiau a gollwyd fesul unigolyn i salwch **hir dymor** |
|---|---|---|---|---|---|
| Staff Shifftiau Llawn Amser | 133.7 | 456 | 3.41 | 942 | 7.04 |
| Staff Criw Dydd | 85.6 | 302 | 3.53 | 497 | 5.80 |
| Staff Dyletswydd Dydd/Hyblyg | 70.8 | 148 | 2.09 | 743 | 10.49 |
| Staff yr Ystafell Reoli | 30.7 | 126 | 4.10 | 113 | 3.68 |
| Staff Di-lifrai | 92.6 | 447.5 | 4.83 | 498.5 | 5.38 |
| Staff Lifrai Llawn Amser | 320.8 | 1032 | 3.22 | 2295 | 7.15 |
| **Holl Staff** | **413.4** | **1479.5** | **3.58** | **2793.5** | **6.75** |


Cyfran Absenoldeb Salwch Tymor Byr / Hir Ebrill 2002 - Chwefror 2003
20.00
18.00
16.00
14.00
12.00
10.00
8.00
6.00
4.00
2.00
0.00
Llawn Amser Shifftiau
Criw Dydd
Dylestwydd Dydd/Hyblyg
Ystafell Reoli
Di-lifrai
Lifrai Llawn Amser
Holl Staff
Tymor Hir
Tymor Byr


Cyfran Absenoldeb Salwch Tymor Byr / Hir Ebrill 2003 - Chwefror 2004
20.00
18.00
16.00
14.00
12.00
10.00
8.00
6.00
4.00
2.00
0.00
Llawn Amser Shifftiau
Criw Dydd
Dylestwydd Dydd/Hyblyg
Ystafell Reoli
Di-lifrai
Lifrai Llawn Amser
Holl Staff
Tymor Hir
Tymor Byr